**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd nos Fawrth 15 o Ebrill 2025 drwy Zoom.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Rhys Parry (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Richard Robinson, Cemlyn Jones, Gwynedd Williams, Hefin Jones, Philip Roberts, Berwyn Parry Jones, Ann Lawton, Beca Brown.

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Alan Pritchard

**Clerc:** Meirion Jones

**1436. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod a diolchodd y Cadeirydd am bresenoldeb yr aelodau

**1437 . Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriad gan y Cynghorydd Alan Pritchard a dymunwyd gwellhad buan iddo

**1438. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w datgan fel yn briodol

**1439. I dderbyn cofnodion cyfarfod 18 Mawrth 2025**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**1440. Unrhyw fater yn codi o'r cofnodion**

**Eitem 1434 –** Cadarnhawyd mai'r swm a gyfrannwyd at y Clwb Pêl Droed Llanrug Unedig oedd £1500

**1441. I dderbyn adroddiad ar y cyd oddi wrth y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones sef aelodau dros Llanrug a Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd**

**1442. I dderbyn adroddiad gan gadeirydd Pwyllgor y Fynwent (Cynghorydd Philip Roberts)**

Cyfarfod safle gan yr aelodau'r is-bwyllgor a'r clerc 8.4.25. i drafod ffurflen gais cystadleuaeth Mynwent y Fynwent. Ystyriwyd oblygiadau'r cwestiynau newydd ar y ffurflen i reolau'r fynwent a chynnwys gwefan y Cyngor. Penderfynwyd parhau gyda'r broses yn cyfarfod nesaf yr is-bwyllgor 29/4/25 am 5.30 y.h. yn y Fynwent.

Gwaith adeiladu'r wal y gofod newydd ar ei hanner.
Gwaith i adnewyddu stêcs cofebion (categori 2) wedi dechrau .

Gwaith cwblhau uwchraddio cyflwr cofebion (o gategori un) erbyn diwedd y flwyddyn Cyngor mewn lle gyda chontractwyr.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1443. I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd y cyngor ar fwrdd llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanrug (Cyng Philip Roberts)**

Cynhaliwyd ail cyfarfod y flwyddyn i Lywodraethwr Ysgol Gynradd Llanrug ar 31.3.25.

Ymysg materion trafodwyd: adroddiad y Pennaeth ar sefyllfa gyfredol yr Ysgol ; adroddiad Cyngor Gwynedd ar capasiti yr Ysgol ; ymateb Pennaeth Addysg Cyngor Gwynedd i Gynllun Busnes ar gyfer safle Tŷ'r Ysgol; a chyllid am 25-26.

Penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd am fwy o fanylion am resymeg a gwybodaeth am y data yn ei adroddiad ar capasiti yr Ysgol.

Penderfynwyd parhau gyda thrafodaethau gyda Chyngor Gwynedd ynglŷn â safle Tŷ'r Ysgol.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1444. I dderbyn adroddiad gan gadeirydd Pwyllgor Hamdden a Mwynderau (Cyng Avril Jones)**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones, Cadeirydd y Pwyllgor nad oeddynt wedi cyfarfod ers cyfarfod diwethaf o'r cyngor. Ymhelaethodd ar weithgareddau a gwaith y pwyllgor sydd ar y gweill

- Trefnu hyfforddiant ar y diffibriliwr
- Dyddiadau i gerdded llwybrau cyhoeddus – pawb i drefnu eu hunain pan yn gyfleus
- Angen rhoi rheolau caeau chwarae fyny
- Cysgodfa bws ger Glyntwrog. Rhoi tan ddiwedd y mis i'r cwmni cyn cysylltu ymhellach
- Asesiad risg y coed wedi gario allan (adroddiad i'w gylchredeg i'r Cynghorwyr Cemlyn Jones, Beca Brown, Rhys Parry a Gwynedd Williams – am ei fod yn adroddiad swmpus, y clerc i'w argraffu a'i ddidoli cyn ymweld a'r coed
- Pris wedi dderbyn y wneud gwaith ar y parc sglefrio
- Offer y gampfa oedd yn ddiffygiol wedi drwsio
- Dau deiar wedi dderbyn ar gyfer plannu blodau
- Cyfarfod a'r contractwr ar y safle am 4:00 23 o Ebrill yn Cwm
- Pwyllgor nesaf wedi drefnu ar gyfer 13 o Fai 2025 am 6:00yh ar gae chwarae Allt Goch, Cwm y Glo
- Angen edrych fewn i osod blwch halen melyn yn Cwm y Glo
- Trefniadau dathlu VE Day – oes yna Wasanaeth ymlaen yn Y Sefydliad neu rhywle arall oddi fewn i'r ardal

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1445. I dderbyn adroddiad gan gadeirydd Pwyllgor Cyllid a Mwynderau (Cyng Avril Jones)**

Adroddwyd gan Y Cynghorydd Avril Jones nad oedd y pwyllgor wedi cyfarfod ers cyfarfod diwethaf o'r cyngor ond gellir hysbysu'r cyngor o beth sydd wedi mynd ymlaen.

- Mae gwaith yn parhau i'w wneud ar y newyddlen.
- Grant o £1,500 wedi ganiatáu ar gyfer Clwb Pêl-droed Llanrug Unedig
- Clwb y Graig wedi cael rhywfaint o offer allan o arian sydd wedi glustnodi ar gyfer Cwm y Glo yn unig
- Wedi cael ein dewis eleni ar gyfer archwiliad llawn gan yr archwiliwr allanol. Mae hyn yn mynd i gymryd llawer iawn o amser a gwaith.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1446. I gymeradwyo ffurflen AGAR ar gyfer 2024/2025 a'r Cadeirydd i'w arwyddo**

Nid yw'r ffurflen yn barod felly penderfynwyd trosglwyddo'r eitem i gyfarfod mis Mai

**1447. I dderbyn diweddariad ar y cynllun bwyd ar gyfer 2025 / 2026 (Cyng Berwyn Parry Jones)**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones sefyllfa ddiweddara y cynllun bwyd. Nodwyd fod y grant wedi gorffen ac fod hyn yn golygu ni ellir darparu bara a wyau bellach.

Adroddwyd fod Fareshare yn ein bilio yn chwarterol nawr nid yn flynyddol fel llynedd ac fod ein gobeithion ar gyfer derbyn grant o Gist Gwynedd, byddai y grant yma yn talu am aelodaeth y chwarter cyntaf o leiaf

I edrych fewn i dderbyn arian allan o cynllun Hydro neu unrhyw leoliad neu fudiad arall

Fod ein cais am grant at Cist Gwynedd wedi ei gyflwyno ond chawn ni ddim penderfyniad tan ar ôl 25ain o Ebrill 2025.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1448. I ystyried oblygiadau trefniadau casglu gwastraff masnachol ar gyfer 2025 / 2026 (manylion wedi gylchredeg gyda agenda)**

Adroddwyd fod cytundeb gwagio biniau o'r fynwent angen ei adnewyddu. Trafodwyd y gwahanol opsiynau a'r oblygiadau o beidio didoli gwastraff ar gyfer ail-gylchu yn gywir.

**Penderfynwyd:** Parhau a'r trefniant presennol.

**1449. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.**
**https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a) **Rhif y Cais:** C25/0115/23/AC
**Math o Gais:** Diddymu/Amrywio Amod(au)
**Bwriad:** Cais ar gyfer rhyddhau amod 3 (gorffeniad allanol), 7 (tirlunio), 11 (enw Cymraeg) ac 13 (llechi naturiol) ar ganiatad rhif C24/0232/23/LL. Applicatio to discharge conditions 3(external finishes), 7(Landscaping plan), 11 (Welsh name) and 13( natural slates) on planning approval no. C24/232/23/LL
**Ymgeisydd:** Mr Martin Williams
**Asiant:** Mr Alan Owen (A.L.I Buiding Design)
**Cyfeiriad:** Tŷ Isaf, Bryniau Fawnog Ffordd Minffordd, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4PU
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynnwyd:** Dim gwrthwynebiad ond gyda sylw byddai yn ddymunol defnyddio llechi lleol oni bai fod rhesymau amgylcheddol

b) **Rhif y Cais:** C25/0135/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Gosod Pwmp Aer Ffynhonnell Aer Installation of a Riello Heat Pump
**Ymgeisydd:** Ms Stephania Roumeliotou
**Asiant:** Rebecca Chant (Menai Heating Ltd)
**Cyfeiriad:**
Cadnant, 4, Tai Tan Y Coed, Ceunant, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4RL
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynnwyd:** Cefnogi'r cais

c) **Rhif y Cais:** C25/0212/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Codi sied oflaen yr eiddo ar gyfer defnydd stablau a storio. Erection of a shed at the front of the property for stable and storage use.
**Ymgeisydd:** David Proctor
**Cyfeiriad:** Afallon, Pant Afon Bach, Ceunant, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4RA
**Ward:**
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynnwyd:** Dim gwrthwynebiad

Daeth y cyfarfod i ben am 20:30

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: